LLEOLIAD MAES
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU CEREDIGION 2010

Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron ger Aberaeron, bydd lleoliad Eisteddfod yr Urdd yng Ngheredigion 2010. Penderfynwyd ar y safle mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010 ar ôl derbyn argymhelliad gan Bwyllgor Maes yr Eisteddfod.

Yn wreiddiol, fe dderbyniwyd cynigion am safleoedd posibl i gynnal gŵyl ieuenctid fwyaf Cymru oddi wrth un ar ddeg lleoliad trwy Geredigion gyfan. Ar ôl proses asesu a oedd yn ystyried amryw o ffactorau gwahanol, crëwyd rhestr fer o bedwar ar ddechrau'r flwyddyn. Bellach, mae'r Urdd wedi penderfynu ar safle Llanerchaeron yng nghanol y sir.

Yn ôl Aled Siôn, Cyfarwyddwyr yr Eisteddfod:

> "Mae'r Urdd yn ffodus ac yn falch iawn bod cynifer o ardaloedd wedi dangos diddordeb a bod safleoedd o safon ar gael. Ond ar ôl ystyried yr holl elfennau a thrafod gydag awdurdodau eraill, ym marn y Pwyllgor Maes a'r Pwyllgor Gwaith, safle Llanerchaeron oedd ar y brig. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn lleol yn Llanerchaeron ac yn genedlaethol. Mae'r safle a'r Plas yn hyfryd ac rwy'n argyhoeddedig y bydd y lleoliad godidog hwn yn cyfrannu yn fawr at lwyddiant yr ŵyl yn 2010."

Dyma fydd pumed ymweliad Prifwyl yr Urdd â Cheredigion ond yr ymweliad cyntaf i ardal Aberaeron. Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddwywaith o'r blaen yn Aberystwyth a hefyd dwywaith yn Llanbedr Pont Steffan, y tro olaf yn 1999.

Dywedodd Iwan Huws, Cyfarwyddwr Cymru'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

> "Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hapus iawn bod yr Urdd wedi dewis ein lleoliad yn Llanerchaeron ac mae'n anrhydedd ein bod yn medru croesawu a chynnal yr Eisteddfod, sef un o brif wyliau Cymru ar eiddo'r Ymddiriedolaeth."
>
> "Rydym yn cynnal digwyddiadau niferus ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gyson trwy'r flwyddyn mewn amryw o leoliadau ac rwy'n ffyddiog y bydd cydweithio hapus rhwng yr Urdd a ninnau er mwyn sicrhau Eisteddfod fythgofiadwy yng Ngheredigion 2010."

Mae angen dros 70 acer o dir i gynnal Eisteddfod yr Urdd sy'n denu dros 100k o ymwelwyr a 15k o gystadleuwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Codir Pafiliwn 1,800 sedd mewn Maes amrywiol 20 acer ynghyd â chreu maes carafannau a meysydd parcio pwrpasol.

Yn ôl Deian Creunant, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Ceredigion:

> "Mae brwdfrydedd mawr yng Ngheredigion gyda gweithgareddau niferus o dan ofal y pwyllgorau apêl leol ym mhob cwr o'r sir. Mae'r Rhestr Testunau yn cael eu llunio yn barod ar gyfer ei gyhoeddi ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf a threfniadau'r Cyhoeddi eisoes ar y gweill. Mae pobl Ceredigion yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr ŵyl ac rydym yn falch iawn bod yr Eisteddfod yn dychwelyd unwaith eto i'r Sir. Gyda safle ardderchog Llanerchaeron yn sylfaen i'r cyfan, fe fydd Eisteddfod 2010 yn llwyddiant ysgubol ac yn gyfle arbennig i blant a phobl ifanc Ceredigion."